# AC(2) 10-04 (p6)

# Memorandwm gan

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Goblygiadau Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru

Cyflwynwyd gerbron Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Tachwedd 2004**

## Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru

### Cyflwyniad

1 Bydd aelodau'n ymwybodol bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru fis diwethaf ar gyfer sut yr oedd yn bwriadu cyflawni ei hamcanion polisi strategol, yn Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru. Diben y papur hwn yw nodi prif nodweddion cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Pwyllgor, sut y maent yn gysylltiedig â'r swyddogaeth archwilio a swyddogaethau rheoleiddio eraill, a sut yr wyf yn bwriadu ymateb.

### Prif nodweddion Creu'r Cysylltiadau

2. Mae cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar gysylltu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus drwy bartneriaeth a chydweithredu, yn hytrach na chystadlu; gwrthodir tablau cynghrair yn benodol ar y sail nad ydynt yn cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau oherwydd eu bod yn ei gwneud

yn anos i wella perfformiad tangyflawnwyr. Er mwyn gwella partneriaethau a chydweithredu, mae’r thema gwasanaeth cyhoeddus unedig yng Nghymru, gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn rhedeg drwy’r papur.

3. Elfen benodol o hyn yw cymathu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ymhellach i’r Cynulliad. Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddodd y Prif Weinidog fwriad y Llywodraeth i ddod ag Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa – y Cyngor Cenedlaethol o fewn y Cynulliad ei hun. Caiff cyhoeddiad arall ynghylch y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy’n weddill ei wneud yn ddiweddarach eleni. Tair nodwedd bwysig arall yn y papur yw’r angen i wella’r seilwaith TGCh yng Nghymru; mynediad a chyfranogiad dinasyddion – lle bo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu datblygu mesurau o foddhad dinasyddion i asesu perfformiad y sector cyhoeddus; a gwella capasiti rheoli’r sector cyhoeddus.

4. Noda’r adroddiad darged o gyflawni £600 miliwn o welliannau gwerth am arian ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan erbyn 2010, gydag o leiaf hanner wedi’i gyflawni erbyn 2008. Mae hyn yn cynrychioli 5 y cant o gyfanswm y buddsoddiad presennol mewn gwasanaethau cyhoeddus ac 1 y cant o welliant effeithlonrwydd o’r naill flwyddyn i’r llall. Ymhlith ymrwymiadau ariannol penodol mae:

- hyd at £120 miliwn o welliannau gwerth am arian drwy gaffael gwell erbyn 2008;
- hyd at enillion o £120 miliwn yn sgîl gwella a rhannu swyddogaethau cymorth (megis cyllid ac adnoddau dynol) erbyn 2010;
- lleihau absenoldeb oherwydd salwch: noda’r papur y byddai lleihad o un diwrnod fesul person y flwyddyn yn werth tua £25 miliwn y flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, noda’r adroddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru "yn mynd ar drywydd cyfleoedd gwerth am arian a allai godi drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat". Yn wahanol i’r adroddiad effeithlonrwydd a baratowyd gan Syr Peter Gershon yn ystod yr haf ar gyfer llywodraeth y DU, nid yw Creu’r Cysylltiadau yn sôn o gwbl am unrhyw angen i golli swyddi ymysg staff y sector cyhoeddus.

5. Mae Creu’r Cysylltiadau yn bapur ymgynghorol, a 31 Ionawr 2005 yw’r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. Yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei chynllun gweithredu pum mlynedd a fydd yn rhoi ei chynigion ar waith. Mae hefyd yn sefydlu Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi’i gadeirio gan Brif Weinidog Cymru, i oruchwylio’r cynllun gweithredu ac i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn flynyddol; ac mae hefyd yn dyrannu £32 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf i ategu’r cynllun gweithredu ar sail buddsoddi i gynilo.

## Rôl archwilio, rheoleiddio ac arolygu

6. Ceir nifer o gyfeiriadau at y rôl y dylai’r swyddogaethau archwilio, rheoleiddio ac arolygu ei chwarae. Noda’r papur bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwario dros £40 miliwn y flwyddyn yn ariannu’r cyrff amrywiol sy’n ymgymryd â’r swyddogaethau hyn. Dyfynnir yn benodol bod y gwaith o sefydlu

Swyddfa Archwilio Cymru o fis Ebrill 2005 ymlaen yn gwella atebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Llywodraeth yn:

- bwriadu lleihau'r pwysau rheoleiddio ac arolygu: caiff yr haenau dan sylw eu symleiddio a dylai gweithgareddau fod yn fwy cymesur o ran risgiau, er mwyn i gyrff llwyddiannus wynebu llai o graffu na'r rheini nad ydynt yn gwneud cystal;
- rhoi mwy o bwyslais ar graffu effaith reoleiddio deddfwriaeth a pholisi arfaethedig, gyda'r bwriad o leihau'r baich ar fusnesau;
- hyrwyddo mwy o gydlynu rhwng cyrff rheoleiddio ac arolygu drwy fentrau megis Concordat ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol (sy'n cynnwys archwilio) ac adolygiadau ar y cyd gan arolygiaethau;
- pwysleisio pwysigrwydd y swyddogaeth arolygu a rheoleiddio gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ac ymagwedd sy'n "canolbwyntio ar ddinasyddion".

Y ffactor pwysicaf yw bod y papur yn cynnwys ymrwymiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghori â phartneriaid a chyrff archwilio ar y trefniadau ar gyfer diffinio, sicrhau, monitro a dilysu cynnydd yn erbyn y targed o £600 miliwn ar gyfer enillion gwerth am arian.

## Sut yr wyf yn bwriadu ymateb

7. Yn erbyn y cefndir hwn – yn arbennig o ran y crybwylliadau penodol o archwilio ac arolygu yn Creu'r Cysylltiadau – rwy'n awyddus i ymateb yn gadarnhaol i'r papur ymgynghorol hwn. Fodd bynnag, wrth ymgysylltu â'r rhaglen, fy mhryder mwyaf fydd sicrhau na chaiff fy annibyniaeth – a, thrwy hynny, annibyniaeth y Pwyllgor Archwilio – ei pheryglu, nac i bobl dybio iddi gael ei pheryglu o gwbl.

8. Ceir dwy agwedd ar fy nghyfranogiad posibl yn y rhaglen: sicrhau y caiff themâu'r papur eu hadleisio yn fy nghynlluniau gwaith fy hun; a chymryd rhan yn uniongyrchol yn y rhaglen, fel y nodir yn y papur. O ran y cyntaf o'r rhain, efallai y bydd aelodau'n cofio yn fy mlaenraglen gwerth am arian arfaethedig a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 30 Medi, y tynnais sylw (ym mharagraff 12 y papur hwnnw) at yr angen i gadw'r gwaith o ddiwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn cof, fel y nodir bellach yn y ddogfen ymgynghori hon. Gan fod byrdwn cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n glir erbyn hyn rwy'n gweithio ar derfynu fy mlaenraglen gwerth am arian y bwriadaf ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd. Ac, fel yr esboniais yn fy Mhapur ar amcangyfrifon, a ystyriwyd hefyd gan y Pwyllgor ym mis Medi, mae gan archwiliad rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau nad yw cymathu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i'r Cynulliad yn peryglu cywirdeb neu reoleidd-dra.

9. Bydd yr aelodau'n cofio y papur stoc a baratowyd ar gyfer eu cyfarfod ym mis Medi; mae'r archwiliad wedi chawarae ran bwysig I ddosbarthur'r cynilion cylludol enfawr o rhyw £36 miliwn yn y cyrff rywy'n archwilio, ac yn dynodi y terfynau am rhagor o gynilon posib o dros £110 miliwn. O ran cyfraniad uniongyrchol, i baratoi agenda'r Creu'r Cysyllltiadau, ac o gofio'r angen i ddiogelu fy annibyniaeth, bu staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru

yn trafod â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru y ffordd orau i fynd i’r afael â materion. Rydym hefyd yn ystyried y camau gweithredu cyfochrog a gymerir gan ganghennau’r ddau sefydliad y tu allan i Gymru mewn ymateb i adolygiad Gershon. Mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor yn nodi bod gallu cynyddol yr Archwilydd Cyffredinol i ddilyn trywydd arian cyhoeddus ar draws y sector cyhoeddus cyfan ar ôl mis Ebrill y flwyddyn nesaf yn unol ag un o brif fyrdynau Creu’r Cysylltiadau.

10. Ar y cam cymharol gynnar hwn o’n hystyriaethau, byddwn felly yn croesawu unrhyw sylwadau gan aelodau – naill ai yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Rhagfyr neu yn ysgrifenedig. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i’r Pwyllgor maes o law, gan nodi’r camau gweithredu yr wyf wedi penderfynu eu mabwysiadu.

**John Bourn**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

23 Tachwedd 2004